# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 26.02.14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Louise Hughes, Eric M. Jones, Brian Jones, Liz Saville Roberts, Angela Russell R.H. Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Alwyn Evans-Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol ), Iwan Evans (Rheolwr Gwas Cyfreithiol a Gweithrediaeth), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr, Dyfed Edwards, Sian Gwenllian, Dyfrig Siencyn

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL.**

Dim i'w nodi

**4. MATERION BRYS.**

Dim i'w nodi

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 2il o Ragfyr 2013 fel rhai cywir.

**6. PENNAETH ADRAN, OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Cafwyd adroddiad ar lafar gan y Prif Weithredwr yn amlygu'r her oedd yn wynebu'r Cyngor i benodi Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Amlygwyd bod dewis o benodi Pennaeth Interim, Pennaeth ar Secondiad neu ail hysbysebu. Penderfynwyd mai'r dull gorau o gyfarch y risg oedd cynnig secondiad dwy flynedd. Cafwyd barn Aelodau Etholedig, Arweinyddion, Aelodau Cabinet, Cadeirydd a rhai Aelodau o'r Pwyllgor Penodi - derbyniwyd rhai pryderon, ond nid oedd datrysiad gwell.
Nodwyd bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn Bennaeth Gwasanaeth profiadol. Y swydd yn dod i rym 1.4.2014.

Amlygwyd anfodlonrwydd gan rai Aelodau nad oedd y Pwyllgor Penodi wedi bod yn rhan o'r broses - hyn yn tanseilio trefn Democratiaeth. Er mai tebyg fuasai'r penderfyniad, roedd y camau a gymerwyd i benodi yn annerbyniol.

Ategodd y Prif Weithredwr ei fod wedi dilyn canllawiau'r Cyfansoddiad - roedd cyfnod argyfyngus yn wynebu'r gwasanaeth ac felly roedd dyletswydd arno i weithredu yn gyflym. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod trafodaeth heriol a thrylwyr wedi cymryd lle, ac fel rhan o'r broses, roedd yr ymgeisydd wedi cael cyfweliad gan arbenigwr allanol.

Rhaid i'r Cyngor symud ymlaen gan wneud penderfyniadau yn gyflymach i'r dyfodol.

Cadarnhawyd mai cyfnod secondiad o ddwy flynedd oedd y penodiad - bydd y swydd yn cael ei ail asesu ar ddiwedd y cyfnod. Bydd swydd Pennaeth Adran Gofal Cwsmer yn cael ei ddileu o Strwythur Uwch Reolwyr y Cyngor - hyn yn glir yn nhelerau penodi.
Strwythur arfaethedig yn ei lle.

**Derbyniwyd yr adroddiad**

**7. ADRODDIAD POLISI TAL – ADOLYGIAD BLYNYDDOL**

Cyflwynwyd Adroddiad Polisi Tal i'r Aelodau gan y Prif Weithredwr.
Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar holl gynghorau Cymru i fabwysiadu Polisi Tal i'w staff. Mae'r ddarpariaeth statudol yn ei gwneud hi'n ofynnol i hyn fod yn swyddogaeth y Cyngor Llawn.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Penodi gynghori'r Cyngor ar ei Bolisi Tal ar gyfer 2014/15 Bydd y Polisi Tal yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar Fawrth y 6ed.

i) Cyflog Isel
Tynnwyd sylw penodol at gynaliadwyedd cyflog staff sydd yn derbyn y cyflog isaf. Fel Pennaeth Gwasanaeth Taledig y Cyngor, ategodd y Prif Weithredwr mai'r unig newid oedd yn ei argymell i Bolisi Tal y Cyngor 2014/15 oedd yr hyn sydd yn berthnasol i gyflog isel. Argymhellwyd y dylid codi cyflog staff y Cyngor sydd yn derbyn y cyflog isaf trwy ddileu'r ddau bwynt cyflog isaf o strwythur cyflog y Cyngor.

Croesawyd yr adroddiad. Amlygwyd bod Gwynedd yn ardal lefel cyflog isel, ac felly'r argymhellion i'w croesawu.

**Derbyniwyd yr argymhelliad i ddileu dau bwynt cyflog isaf o strwythur cyflog y Cyngor.**

*Gadawodd y Pennaeth Cyllid y cyfarfod ar gyfer cynnal trafodaeth ar gyfer cyflogau Uwch Swyddogion.*

ii) Cyflogau Uwch Swyddogion

Nid oedd argymhelliad i wneud unrhyw newid i gyflogau Uwch Swyddogion y Cyngor .
Mewn ymateb i gwestiwn, nododd y Prif Weithredwr bod cyflogau Gwynedd o gymharu â Siroedd ffiniol yn gystadleuol ar lefel Pennaeth Gwasanaeth, ond llai cystadleuol ar lefel Cyfarwyddwyr.

*Gadawodd y Prif Weithredwr y cyfarfod ar gyfer trafodaeth cyflogau Prif Weithredwr*

iii) Cyflog Prif Weithredwr

Adroddodd Pennaeth Adnoddau Dynol bod y raddfa gyflog yn cael ei chynnwys yn y Polisi Tal am y tro cyntaf eleni.

**Derbyniwyd y wybodaeth.**

************************

Mewn ymateb i gais y Prif Weithredwr am ymddeoliad cynnar, gosodwyd amserlen cyfarfodydd penodi olynydd:

| | |
|---|---|
| Mawrth 12 2014 | trafod trefniadau arfaethedig |
| Ebrill 7 2014 | tynnu rhestr fer |
| Ebrill 29 2014 | penodi |

Y Pwyllgor Penodi yn ddiolchgar iawn i'r Prif Weithredwr am ei holl waith dros y blynyddoedd diwethaf.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:00pm